Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Aberystwyth**
**Coedlan Plascrug Avenue**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Crynodeb

Mae holl waith a bywyd yr ysgol yn seiliedig ar dri nod cytûn ar gyfer ei disgyblion a'i staff, sef hybu balchder yn eu Cymreictod, parchu ei gilydd a gwneud eu gorau glas. Mae'r nodau hyn yn treiddio'n gryf iawn trwy ei holl weithgareddau. Yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn. Maent yn perfformio ar lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gyson yn cyflawni y tu hwnt i hyn. Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael ei barchu drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae safonau lles ac agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn gryf. Mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu o safon uchel iawn ac mae'r gefnogaeth ar gyfer sicrhau lles disgyblion yn nodwedd arbennig. Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol iawn gan bennaeth hyderus a chreadigol ac mae'r uwch dîm rheoli yn ei gefnogi'n gydwybodol gan sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg sy'n gyson o ansawdd uchel iawn ac sy'n seiliedig ar gynnal a chodi safonau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) disgyblion yn adeiladu'n fwy systematig ar y rheini y maent eisoes wedi eu caffael

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth ac yn mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arferion gorau a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Rhagorol |
|---|---|

Mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn meddu ar fedrau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob un yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Mae bron pob un disgybl sy'n dod o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da iawn yn fuan.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob un disgybl yn gadarn iawn. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn hyderus, gan ddefnyddio brawddegau estynedig a diddorol yn y Gymraeg. Maent yn siarad yn aeddfed mewn amrywiol sefyllfaoedd o oed cynnar gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gymhleth wrth iddynt fagu hyder. Mae'r rhan fwyaf yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud mewn tasgau yn glir ac yn hyderus iawn. Mae llawer yn defnyddio tafodiaith leol yn gwbl naturiol wrth sgwrsio ag eraill. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn fedrus ac aeddfed iawn.

Mae medrau darllen bron pob un yn datblygu'n llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen ystod eang o wahanol destunau yn y Gymraeg yn gynyddol gywir. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd pan fo angen. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed iawn, gan roi rhesymau synhwyrol dros eu dewisiadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac aeddfed iawn yn y ddwy iaith, ac yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac yn annibynnol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu i safon uchel iawn at wahanol bwrpasau mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau diddorol yn gynyddol gywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da o blith disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys dyddiadur glöwr a chyfweliad â Wini'r Wrach, ac o gyfnod allweddol 2, portread o Tim Boswel, wrth astudio'r nofel 'Tân ar y Comin' ac adroddiad ffeithiol am eu hymweliad â'r Amgueddfa Wlân. Mae'r rhan fwyaf yn atalnodi a sillafu'n gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn hynod gadarn. Gall bron pob un ddatrys problemau rhif yn hyderus, ac adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, gan gymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd. Enghreifftiau nodedig yw'r ffordd hyderus mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfrifo arian a'r newid sydd ei angen wrth chwarae yn y siop chwaraeon, a disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn datrys problemau rhifiadol wrth drefnu taith i Ddulyn. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth gadarn o luosi a gwerth lle, a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, fel graffiau neu dablau. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth mewn ystod eang o bynciau ar draws y cwricwlwm. Enghraifft nodedig yw graff llinell i ddynodi'r cysylltiad rhwng taldra person a chynhwysedd ei ysgyfaint mewn gwyddoniaeth.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn eu defnyddio'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae medrau TGCh rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn sicr iawn o ystyried eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, cynhyrchu cyflwyniadau digidol, defnyddio codau 'QR', ac ymchwilio ar y rhyngrwyd yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer hefyd yn creu ac archwilio cronfeydd data yn aeddfed ac mae ychydig yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn lled effeithiol i atgyfnerthu eu gwaith mewn meysydd eraill. Maent yn defnyddio gwybodaeth o daenlenni yn effeithiol i greu graffiau.

Mae bron pob un disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn a chyson yn erbyn eu targedau personol.

Gan fod nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim mor fach, nid yw'n ddibynadwy cymharu eu perfformiad gyda'r gweddill. Fodd bynnag, mae bron pob un wedi gwneud cynnydd da iawn dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm nodedig o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi bod yn gadarn, gyson uchel dros y pedair blynedd ddiwethaf ym mron pob dangosydd ansawdd. Eithriadau yw'r disgyblion sydd ddim yn cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig.

Mae tuedd ar i fyny yng nghanlyniadau asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf. Gan amlaf, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a llythrennedd Cymraeg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad yn gyson uwch na'r cyfartaledd mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gan amlaf wedi ei gosod yn yr 50% uwch yn y ddwy iaith a mathemateg. Er bod tua 98% o'r disgyblion yn cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig yn gyson mewn gwyddoniaeth, mae'r ysgol wedi ei gosod yn yr 50% is. Ar y lefelau uwch, mae'r ysgol wedi perfformio'n gyson uchel ac yn gyffredinol uwchlaw'r cyfartaledd ym mhob pwnc craidd o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

Cyflawnodd ychydig iawn o ddisgyblion ddwy lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig ym mhob dangosydd yn y ddau gyfnod allweddol yn 2016.

| **2: Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae safonau lles ac agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn hynod gadarn. Mae bron pob un yn manteisio'n effeithiol iawn ar y cyfleoedd buddiol a ddarperir iddynt fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig ar waith yr ysgol, ac i gyfrannu at eu lles eu hunain a'u cyfoedion. Maent yn gwneud hyn drwy gyfrwng yr amrywiaeth o bwyllgorau plant effeithiol, sy'n cynnwys y cyngor ysgol, pwyllgor cadw'n iach a'r pwyllgor gwrth-fwlio. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth disgyblion o'r gwahanol agweddau ar eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r

staff yn trosglwyddo cyfrifoldeb pellach i'r disgyblion hŷn i arwain agweddau pwysig ar waith yr ysgol drwy fynegi barn ar gynnwys polisïau sy'n berthnasol iddynt a thrwy arwain gweithdai ffitrwydd i ddisgyblion iau. Mae disgyblion yn ddiolchgar bod arweinwyr yn ymddiried ynddynt, yn cymryd eu syniadau o ddifrif ac yn aml yn gweithredu ar eu hargymhellion. Mae disgyblion yn cefnogi gweithgareddau'r pwyllgor dyngarol yn rheolaidd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl am bwysigrwydd cadw'n iach trwy yfed a bwyta'n synhwyrol a chyfranogi mewn gweithgareddau corfforol yn aeddfed. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol sydd ar gael ac mae llawer yn eu mynychu'n rheolaidd ac yn cystadlu mewn gemau cyfeillgar gyda thimau o ysgolion cyfagos. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda iawn ac yn arddangos cwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hon yn nodwedd eithriadol o fywyd yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu effeithiol iawn sy'n bodoli yno. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Maent yn manteisio'n rheolaidd ar y cyfleoedd gwerthfawr sydd ar gael iddynt leisio eu barn ar yr hyn y maent am ei ddysgu ar ddechrau pob thema, a chynnig eu trywyddau dysgu eu hunain.

Mae bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn hynod effeithiol yn y gwersi ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae cyfraddau presenoldeb dros gyfnod o bedair blynedd yn uchel iawn ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **3: Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ac yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu cyfoethog a phrofiadau dysgu diddorol i ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn llwyddiannus.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r ffordd naturiol y mae staff yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog, sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'n seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus sydd eto'n ennyn eu diddordeb yn dda ac yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus. Mae hyn yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith ac yn meithrin eu hymwybyddiaeth o'u diwylliant yn hynod lwyddiannus. Enghraifft nodedig o hyn yw'r prosiect ysgogol sy'n datblygu medrau disgyblion trwy weithgareddau celf, dawns a cherddoriaeth mewn cyd-destun Cymreig.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion yn greiddiol i'w chynlluniau. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn yn systematig ac yn seiliedig ar eu profiadau blaenorol. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn naturiol. Enghraifft nodedig yw'r cynllun lansio balŵn i'r gofod, sydd wedi darparu cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau disgyblion i safon uchel iawn. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd da i ddefnyddio'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw staff bob amser yn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn adeiladu'n ddigon systematig ar y rhai y maent eisoes wedi eu caffael.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae staff yn meithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn effeithiol trwy annog disgyblion i weithio'n annibynnol a chymhwyso'u medrau ar dasgau heriol. Mae'r tasgau a'r heriau o safon uchel iawn ac yn cymell brwdfrydedd a chymhelliant bron pob un disgybl yn llwyddiannus.

Nodweddion gorau'r addysgu, sy'n amlwg ym mhob dosbarth, yw'r disgwyliadau uchel sydd gan yr holl staff, a'r ffordd effeithiol y mae athrawon yn rhannu amcanion clir gyda disgyblion. Maent yn aml yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfeisio'u meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae hyn yn annog y disgyblion i ystyried eu perfformiad eu hunain, a'i fireinio lle bo angen, wrth iddynt weithio drwy eu tasgau. Mae cyflwyniadau'r athrawon yn fywiog ac yn herio bron pob disgybl i gyflawni cystal ag y gallant. Mae athrawon yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae bron pob un yn modelu iaith safonol yn grefftus, ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i wella medrau llafar y disgyblion. Trwy feithrin perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion, mae staff yn creu amgylchedd dysgu hynod gefnogol ac ysgogol. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig o effeithiol i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau asesu'n effeithiol iawn i gefnogi disgyblion. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol a, lle'n briodol, adborth ysgrifenedig gwerthfawr, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu eu medrau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn creu gwaith o safon uchel.

Mae athrawon yn asesu'n gywir ac yn dadansoddi deilliannau yn effeithiol i lywio'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn elfen gref iawn o waith yr ysgol.

| **4: Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan yr ysgol weithdrefn hynod effeithiol i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r weithdrefn yn hawdd i'w defnyddio gan athrawon, ac yn eu galluogi i gynllunio a darparu cefnogaeth i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn dda. Mae athrawon yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth

effeithiol iddynt. Mae cynorthwywyr yn gweithio'n ddiwyd o dan arweiniad yr athrawon neu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel iawn. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg sy'n cynnwys targedau mesuradwy a heriol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni a'u haddasu yn ôl y galw. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw ei hymrwymiad llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd fel nad oes angen iddynt barhau i dderbyn ymyraethau am gyfnodau estynedig.

Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol ei disgyblion, sy'n meithrin agweddau fel parch a chydraddoldeb, ac sy'n hybu nodau'r ysgol yn hynod effeithiol. Mae athrawon yn trefnu ymweliadau addysgol cyfoethog ac yn gwahodd ymwelwyr diddorol i'r ysgol sy'n cyfrannu'n gadarn at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd meithrin agweddau cymdeithasol eang ac amrywiol.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fwyta, yfed a chadw'n iach yn effeithiol trwy ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol ar eu cyfer. Mae ei threfniadau ar gyfer ymateb i anghenion emosiynol y disgyblion yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn darparu sesiynau effeithiol a sensitif ar gyfer disgyblion bregus i drafod eu teimladau ar adegau anodd, er mwyn codi eu hyder ac i sicrhau eu bod yn barod i ddysgu.

Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu fel wythnos gwrth-fwlio, lle y cânt gyfleoedd i werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol, moesol a materion sy'n digwydd yn y byd ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd hynod effeithiol i hyrwyddo medrau cymdeithasol a moesol ei disgyblion, trwy ddefnyddio strategaethau amrywiol, sy'n aml yn cynnwys y pwyllgorau plant. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar allu disgyblion i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd o fewn amgylchedd gynhwysol a gofalgar. Mae'n eu hannog i dyfu'n ddinasyddion gweithgar sy'n barod i arwain elfennau pwysig o fewn eu cymuned.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ragorol o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt, gan ddatblygu eu hunanhyder, eu balchder yn eu hunain a'u gallu i gydweithio ag eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a cherddorol a chystadlaethau'r Urdd.

Mae'r adeilad a safle'r ysgol yn lân a thaclus. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

| **5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hyderus, yn ddeallus ac yn greadigol. Mae'r dirprwy ac aelodau'r uwch dîm rheoli yn ei gefnogi'n llwyddiannus gan sicrhau bod staff yn darparu addysg o ansawdd uchel iawn ac yn ymrwymo'n gryf i gynnal a chodi

safonau. Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu 'gorau glas'. Mae'n cyfleu'r weledigaeth hon yn hynod llwyddiannus ac mae'n greiddiol i holl weithgareddau'r ysgol. O ganlyniad, mae gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddisgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion.

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb am agwedd benodol o waith yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynnal safonau cyson uchel o ran yr addysgu a chyflawniad disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddiadau data perfformiad i fireinio'r ddarpariaeth a chynllunio hyfforddiant staff. Enghraifft dda o hyn yw'r modd effeithiol mae'r ysgol wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae hyn wedi arwain at godi safonau ar y deilliant a'r lefel uwch.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol drwy chwarae rhan flaenllaw yn ei phrosesau monitro, hunanarfarnu, a chynllunio strategol. Trwy gydweithio'n effeithiol ag arweinwyr, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o safonau'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella yn rhan naturiol ac effeithiol iawn o'i gwaith, ac wedi arwain at gynnal a chodi safonau yn gyson ers cyn yr arolygiad diwethaf. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn amlygu'r rhinweddau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn fanwl a chywir. Mae wedi ei sefydlu'n gadarn ar ganfyddiadau gweithdrefn fonitro effeithiol sy'n seiliedig ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a chodi safonau. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiad trylwyr mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella yn flynyddol.

Un o rinweddau cryfaf arweinyddiaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae ganddi weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn sy'n cyfoethogi datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Enghraifft nodedig o'r gweithgareddau hyn yw'r 'Rhannu Dysg' sy'n galluogi athrawon i arsylwi ar ei gilydd a chydweithio mewn pedwarawdau i fireinio agweddau penodol o'u harferion addysgu. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd hyn yn fanwl ac yn addasu ei harferion yn gyson. Trwy ei chyfrifoldeb fel ysgol arloesi, mae'n rhannu arfer dda mewn addysgu a dysgu gyda hyfforddeion o Brifysgol y Drindod Dewi Sant ac ysgolion eraill yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel.

## Ynglŷn â'r ysgol

Lleolir Yr Ysgol Gymunedol Gymraeg ar gyrion tref glan y môr Aberystwyth yng Ngheredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 401 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 54 oed meithrin rhan-amser.

Tua 2% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 23% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2001 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2009.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i symud datblygiadau ymlaen yn ymwneud â dysgu proffesiynol.

## Atodiad 1: Tabl cryno meysydd arolygu

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Atodiad 2: Data perfformiad

**6672299 - YR YSGOL GYMUNEDOL GYMRAEG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 416 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 47 | 60 | 47 | 48 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 95.7 | 95.0 | 95.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 60 | 47 | 48 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.7 | 95.0 | 95.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.9 | 51.7 | 53.2 | 54.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 60 | 47 | 48 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.9 | 98.3 | 97.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.3 | 50.0 | 51.1 | 54.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 60 | 47 | 48 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 97.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 55.3 | 65.0 | 83.0 | 79.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Tachwedd 2016

**6672299 - YR YSGOL GYMUNEDOL GYMRAEG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 416 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 44 | 41 | 45 | 52 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 97.7 | 97.6 | 95.6 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 41 | 45 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.7 | 97.6 | 95.6 | 98.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 52.3 | 56.1 | 60.0 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 41 | 45 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.7 | 97.6 | 95.6 | 98.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.2 | 53.7 | 57.8 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 41 | 45 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.7 | 97.6 | 95.6 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.7 | 43.9 | 57.8 | 51.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 41 | 45 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.7 | 97.6 | 97.8 | 98.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 43.9 | 62.2 | 67.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2017**